# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 30 Tachwedd 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

# 107(v2)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid - Trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE

(60 munud)

**NDM8149** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar drefniadau ariannu ar ôl ymadael â'r UE a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2022.

Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Tachwedd 2022.

Derbyniwyd ymateb Llywodraeth y DU i'r adroddiad ar 21 Tachwedd 2022. (Saesneg yn unig)

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – Sicrhau chwarae teg: Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig

(60 munud)

**NDM8152** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 'Sicrhau chwarae teg: Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Awst 2022.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Tachwedd 2022.

## 7 Dadl ar ddeiseb P-06-1302 – Rhaid gwarchod mynyddoedd unigryw Cambria yng Nghanolbarth Cymru drwy eu dynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

(30 munud)

**NDM8146** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi’r ddeiseb ‘P-06-1302 Rhaid gwarchod mynyddoedd unigryw Cambria yng Nghanolbarth Cymru drwy eu dynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol’ a gasglodd 20,889 o lofnodion.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Pwyllgor diben arbennig ymchwiliad COVID-19 Cymru

(30 munud)

**NDM8150** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 16.5:

1. Yn sefydlu pwyllgor diben arbennig ymchwiliad COVID-19 Cymru

2. Yn cytuno mai cylch gwaith y pwyllgor yw:

a) nodi ble nad yw ymchwiliad COVID-19 y DU yn gallu craffu'n llawn ar ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus Cymru i bandemig COVID-19;

b) cynnal ymchwiliad i'r meysydd a nodwyd;

3. Yn cytuno y bydd y pwyllgor yn cael ei ddiddymu erbyn Rhagfyr 2024 yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ei adroddiad terfynol.

**Cyd-gyflwynwyr**

Sian Gwenllian (Arfon)

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Busnesau bach

(30 munud)

**NDM8151** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y bydd Dydd Sadwrn y Busnesau Bach yn cael ei gynnal ar 3 Rhagfyr 2022.

2. Yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae busnesau bach yn ei wneud o ran cynnal economïau lleol, datblygu cymunedau a chreu swyddi.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r ysgogiadau sydd ganddi i gefnogi busnesau bach yng Nghymru yn well.

## 10 Cyfnod Pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8147** Natasha Asghar (Dwyrain De Cymru)

Rhwyd ddiogelwch i blant: gwarchod hawl plant i fod yn ddiogel ar-lein

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022

**Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 23/11/2022 i'w hateb ar 30/11/2022**

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYLLID A LLYWODRAETH LEOL

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ58771 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda chydweithwyr mewn llywodraeth leol am ddefnyddio cronfeydd ariannol?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ58788 (w)

Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi ei rhoi i effaith datganiad yr hydref ar y gefnogaeth ariannol fydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yng Ngorllewin De Cymru?

**Ken Skates** *De Clwyd*

3 OQ58770 (e)

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith datganiad yr hydref Llywodraeth y DU ar reoli adnoddau Llywodraeth Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4 OQ58781 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynglŷn ag effaith gwariant ar lety dros dro ar gyllidebau awdurdodau lleol?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

5 OQ58786 (e)

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith costau byw cynyddol ar wasanaethau llywodraeth leol?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

6 OQ58793 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog yn eu cael gydag awdurdodau lleol am ddefnyddio cronfeydd wrth gefn llywodraeth leol?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

7 OQ58773 (e)

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith datganiad yr hydref Llywodraeth y DU ar waith byrddau gwasanaethau cyhoeddus?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

8 OQ58797 **(e)**

Pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o effaith datganoli gosod trothwyon treth incwm i Gymru?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

9 OQ58784 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynglŷn â dyrannu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol i'w galluogi i ofalu am y trigolion mwyaf agored i niwed?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

10 OQ58774 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau buddsoddi isadeiledd Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Benfro am y 12 mis nesaf?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

11 OQ58776 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog yn ei rhoi i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddyrannu'r grant cymorth refeniw i awdurdodau lleol?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

12 OQ58790 **(e)**

Beth yw'r mesurau y cytunwyd arnynt rhwng y Gweinidog a Gweinidog yr Economi ynglŷn â gwerth am arian ac effeithiolrwydd buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn hyrwyddo Cymru fel rhan o Dîm Pêl-droed Dynion Cymru yn cymryd rhan yng Nghwpan y Byd?

## Y GWEINIDOG MATERION GWLEDIG A GOGLEDD CYMRU, A'R TREFNYDD

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ58785 **(e)**

Sut mae'r Llywodraeth yn sicrhau dyfodol hyfyw i ffermio?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OQ58798 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r cynllun lles anifeiliaid i Gymru?

**Ken Skates** *De Clwyd*

3 OQ58772 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae Pwyllgor Sefydlog y Cabinet ar Ogledd Cymru wedi'i rhoi i gydweithio ar draws ffiniau drwy Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

4 OQ58787 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i annog cymunedau i ymgysylltu â ffermio?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ58791 **(e)**

Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran cydweithio â Llywodraeth y DU ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

6 OQ58794 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau hirdymor y Llywodraeth i olynu cynllun LEADER?

**Peter Fox** *Mynwy*

7 OQ58789 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith yr achosion o'r ffliw adar presennol ar gynhyrchwyr wyau yng Nghymru?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

8 OQ58792 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ychwanegu at y capasiti prosesu bwyd yng Nghymru?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

9 OQ58783 **(e)**

Pa sgyrsiau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chydweithwyr yn y cabinet ynghylch adeiladu tai yng Ngogledd Cymru?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OQ58779 **(w)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi'r sector gwlân yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

11 OQ58795 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn gweithio gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i ymgorffori cynnyrch bwyd lleol yn y cynllun prydau ysgol am ddim?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

12 OQ58782 **(e)**

Pa gamau mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu cynhyrchiant bwyd yng Nghymru?